


## Penawdau ein Maniffesto

- Dylai Llywodraeth nesaf Cymru osod map trywydd ar gyfer cyflenwi 60,000 ychwanegol o dai fforddiadwy dros 10 mlynedd, fel bod 20% o'r holl gartrefi yng Nghymru yn gartrefi fforddiadwy. Mae'n rhaid i'r map trywydd nodi'r camau gweithredu fydd yn cynyddu capasiti i gyflenwi flwyddyn ar flwyddyn fel y gallwn ateb yr angen tai cyfredol a dyfodol ym mhob cymuned.
- Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ddiwygio safonau tai presennol, gyda ffocws ar a rhoi blaenoriaeth i'r hyn sy'n bwysig i denantiaid: cartrefi fforddiadwy a chynnes a gaiff eu cynnal a'u cadw yn dda.
- Gall Llywodraeth nesaf Cymru wneud Cymru yn iachach a thecach, drwy roi cartrefi da wrth ganol cynlluniau i drawsnewid iechyd a chyfoeth pobl a lleoedd.

## Yr hyn y galwn amdano

I gynyddu capasiti i adeiladu mwy o gartrefi mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru weithredu ar:

- **Gwarant cyllid hirdymor:** strategaeth hirdymor ar gyfer buddsoddi cyfalaf gyda chyllid sy'n cynyddu flwyddyn ar flwyddyn yn unol â mwy o gapasiti i gyflenwi mwy o dai fforddiadwy.
- **Creu corfforaeth ddatblygu genedlaethol** gyda phwerau i gynnull tir, arwain ar safleoedd strategol graddfa fawr a chefnogi adfywio.
- **Cyflymu a symleiddio prosesau cynllunio a chymeradwyo:** gwneud penderfyniadau yn gyflymach ac yn fwy effeithiol drwy roi blaenoriaeth i ddiwygio prosesau cymeradwyo a chryfhau'r system dan arweiniad cynllun.
- **Bod yn bragmatig ar safonau:** cyflwyno safonau hyblyg a chymesur ar gyfer adfywio cartrefi gwag a throsi tai preifat presennol, gan ddatgloi mwy o dai fforddiadwy a galluogi pobl i symud yn gyflymach allan o lety dros dro.

I wella cartrefi presennol ar gyfer tenantiaid, mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru weithredu ar:

- **Rhoi blaenoriaeth i brofiad tenantiaid o gartref:** adolygu ac aileirio gofynion ehangach SATC 2023 i roi blaenoriaeth i'r gweithgareddau hynny sy'n gostwng biliau i denantiaid ac sydd yn arwain at y gwelliant mwyaf yn eu profiad o gartref, heb leihau diogelwch.




- **Targedau cymesur y gellir eu cyflawni ar gyfer datgarboneiddio:** Tu hwnt i gyrraedd EPC /SAP 69 erbyn 2030, ni ddylai gwelliannau pellach ganolbwyntio ar dargedau diwahân ac yn lle hynny sicrhau yr effeithiolrwydd ynni mwyaf posibl ar gyfer pob cartref unigol, yn seiliedig ar brofiad pobl o fyw'n dda yno, gan arbed ar filiau ynni a gwerth am arian.
- **Lansio rhaglen genedlaethol ar gyfer sgiliau ôl-osod:** rhaid i hyn gael ei gefnogi gan archwiliad llawn o anghenion sgiliau, cyllid aml-flwyddyn a ffocws ar weithio gyda thenantiaid.
- **Ymchwilio yn gyflym opsiynau cyllid blaengar ar gyfer datgarboneiddio:** yn arbennig ddulliau heb fod ar y fantolen.
- **Cyflymu gweithredu ar bwysau costau byw a gwneud rhenti cymdeithasol yn decach:** o fewn blwyddyn gyntaf tymor Llywodraeth nesaf Cymru.

## Ffigurau allweddol

- Mae cymdeithasau tai Cymru yn adeiladu 75% o gartrefi fforddiadwy ychwanegol ar y gyfradd uchaf ers 2008. Fodd bynnag, gwyddom y gallwn wneud mwy o gael yr amodau cywir.
- Mae 11,029 o bobl mewn llety dros dro ar hyn o bryd, yn cynnwys miloedd o blant.
- **Am bob 20,000 o gartrefi fforddiadwy a adeiledir gan gymdeithasau tai gallem:**
  - Greu hyd at £2.1bn o arbedion i'r sector cyhoeddus ar draws Cymru a'r Deyrnas Unedig yn fwy eang.
  - Creu dros 14,200 o swyddi (uniongyrchol ac anuniongyrchol) ar y cam adeiladu, gyda dros 2,690 o swyddi (uniongyrchol ac anuniongyrchol) yn cael eu cefnogi ar sail barhaus.
  - Creu 2,065 prentisiaeth a darparu 1,245 lleoliad gwaith.
- **Gwneud gwresogi cartrefi yn fwy fforddiadwy ac arbed arian ar filiau ynni i denantiaid:** hyd at £770 y flwyddyn drwy wella cartrefi o EPC D i EPC C. Byddai arbedion pellach yn dod o fynd tu hwnt i EPC C lle mae hynny'n bosibl ar gyfer cartrefi unigol.
- **Arbed arian i'r GIG:** mae cartrefi cynhesach yn gartrefi iachach, yn llai tebygol o fod â lleithder, llwydni a chyddwysiad. Dengys ymchwil y byddai EPC Band C mewn tai cymdeithasol yn arbed dros £85 miliwn y flwyddyn i'r GIG o 2030.




- **Gweithlu ar gyfer y dyfodol:** mae cymdeithasau tai yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol yn cefnogi dros 37,000 o swyddi yn economi Cymru ar hyn o bryd, gan ymestyn yn helaeth i gadwyni cyflenwi ar draws Cymru. Gyda'r datrysiadau a amlinellir uchod, mae potensial ehangu hyn yn sylweddol gyda buddion a fedrai fod yn enfawr i economi Cymru yn y dyfodol tu hwnt i'w cyfraniad presennol o £1.4bn. Er enghraifft, mae Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu wedi amcangyfrif y bydd angen i'r gweithlu dyfu gan 13% dim ond i ateb yr her ôl-osod.

- **Arbedion i wasanaethau cyhoeddus ehangach o fuddsoddi mewn cymorth:** Dengys ymchwil fod £1.40 o arbediad i'r pwrs cyhoeddus am bob £1 a fuddsoddir mewn grant cymorth tai. Yn seiliedig ar gyllideb £182m Grant Cymorth Tai yn 2024/25, mae hyn yn trosi i gyfanswm arbediad gros o £442m, gyda £204m i'r gwasanaeth iechyd, £177m i wasanaethau gofal cymdeithasol a £70m i wasanaethau cyfiawnder troseddol.

- **Gwella deilliannau ar gyfer unigolion:** Er enghraifft, dangoswyd fod Tai yn Gyntaf yng Nghymru yn sicrhau cyfradd cynnal tenantiaeth o 91.5%. Fel yr amlygwyd uchod, mae buddsoddi mewn cartrefi ansawdd da yn cael effeithiau neilltuol ar blant a theuluoedd, gydag ymchwil yn dangos y gall yr amodau tai a gaiff plant ddylanwadu ar eu hiechyd corfforol a meddyliol ar hyd eu bywydau.

- **Manteisio ar fuddsoddiad mewn cartrefi:** Gwyddom bod pob un cartref a adeiledir gan gymdeithasau tai yn arbed £107,000 i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru drwy arbedion i'r GIG, llety dros dro a digartrefedd yn ogystal â refeniw trethiant ychwanegol. Gallai hyn fod hyd yn oed yn uwch drwy fuddsoddi yn fwy penodol yn y datrysiadau uchod, gyda buddion holistig ar gyfer ystod o asiantaethau.